# Anturiaethau / Missions

# 15.6.20

## Antur Rhif/Number Mission

### Ffracsiynau / Fractions




Erstalwm roedd y siopau groser oedd yn Nhalysarn yn gweini bwyd yn ôl y nifer o'r cynnyrch oedd y cwsmer eisiau. Weithiau roedd cwsmeriaid yn gofyn i dorri y cynnyrch cyflawn e.e. bloc o fenyn yn $\frac{1}{2},\frac{1}{4},\frac{3}{4},\frac{1}{8}$ a.y.y.b. Allwch chi ddefnyddio bwydydd yn eich tŷ chi i ddangos y ffracsiynau hyn? Yna ewch ati i drio rhannu rhifau yn ei hanner, chwarter, traean, tri chwarter ac ati gan gofnodi eich gwaith mewn dull o'ch dewis.

Many years ago there were lots of grocery shops in Talysarn serving customers with just the specific amount of product they wanted. Sometimes customers asked the grocer to cut the product e.g a block of butter in $\frac{1}{2},\frac{1}{4},\frac{3}{4},\frac{1}{8}$ etc. Can you use food from your house to show fractions like this? Then try your best to share numbers in half, quarters, threequarters and so on recording you work in a method of your choice.

½ of 24 = 12

¼ of 24 = 6

¾ of 24 = 18

**Her Ardderchog:** -defnyddio haneri a chwarter
-haneru rhifau 2 ddigid yng nghyd-destun rhif, arian a mesuriadau
-canfod symiau ffracsiwn yn gysylltiedig â'r ffeithiau am luosi, e.e. 1/3 o 18, 1/5 o 15




**Excellent Mission:** -use half and quarter
-half 2 digit numbers in respect of number, money and measures
-calculate fraction of number in connection with multiplication e.g. 1/3 o 18, 1/5 o 15

**Her Gwych:** - haneru rhifau 3 digid yng nghyd-destun rhif, arian a mesuriadau
-canfod symiau ffracsiynol drwy ddefnyddio ffeithiau hysbys am dablau, e.e. 1/6 o 30cm
-adnabod mai amryw o rannau sy'n creu rhif cyfan yw ffracsiynau, e.e. 2/3, 3/10

**Super Mission:** -half 3 digit numbers in respect of number, money and measures
- calculate fraction of number in connection with times tables , e.e. 1/6 o 30cm
- Understand that lots of part creates a whole number e.g. 2/3, 3/10

## Antur Meddwl / Thinking Adventure

### Llythyr i ffrind neu aelod teulu

### Letter to friend or relative




Erbyn hyn mae yna gyfnod wedi mynd heibio ers i chi weld ac efallai siarad gyda rhai aelod o'ch teulu neu eich ffrindiau. Beth am i chi ysgrifennu llythyr i aelod o'ch teulu neu i un o'ch ffrindiau yn dweud beth ydych wedi bod yn ei wneud yn ystod yr amser yma a rhannu beth ydych yn gobeithio ei wneud ar ôl 'y Lockdown.' Cofiwch gynnwys cyfeiriad, dyddiad a chyfarchiad ar ddechrau'r llythyr, cynnwys cwestiynau iddynt allu eu hateb, ymadrodd ffarwelio ac enw ar ddiwedd eich llythyr.

It's been a while since you might have seen and/or talked to some members of your family or friends. Write a letter to a member of your family or a friend and share what you've been up to and what you hope you will be able to do after the lockdown. Remember to include your address, date and greeting at the top of the letter, ask questions so they can answer, closing words and your name at end of your letter.

## Antur Creadigol / Creative Mission

### Creu tŷ adar/ Create a bird house

Fel y gwyddoch yn barod mae llawer o fywyd gwyllt yn Nhalysarn gan ei fod yn ardal eithaf gwledig. Allwch chi greu tŷ adar gyda nwyddau o'ch dewis i ddenu adar bach i'ch gardd? Wedi ei wneud arsylwch pa adar sy'n ymweld?

As you already know there are a lot of different wildlife in Talysarn as it it quite a rural area. Can you create a bird house to attract small birds to your garden? After completing it have a look at which birds visit?